Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 12 IONAWR 2009

A ninnau wedi cyrraedd canol Ionawr erbyn hyn, mae pethau'n dechrau dod yn ôl i drefn yma yn y Morlan unwaith eto gyda mwyafrif ein defnyddwyr rheolaidd yn eu holau a mwy o ddigwyddiadau yn cymryd lle yma.

Gobeithio'n fawr y byddwch yn ymuno â ni am 7.30 nos Lun nesaf (19 Ionawr) ar gyfer agoriad swyddogol arddangosfa ddiweddaraf Gareth Owen ***Cysgod y Capel***. Ystyrir y noson hon fel y nesaf yn ein cyfres o nosweithiau Dweud ei Ddweud gan y bydd yr agoriad ar ffurf seiat a thrafodaeth gyda'r arlunydd (Harry James yn cadeirio) – mi ddylai fod yn ddiddorol. Bydd yr arddangosfa, sy'n adleisio festri capel, yma tan 28 Chwefror.

Manylir ar weddill y digwyddiadau isod.

***"ABERYSTWYTH FEL PORTHLADD"* – ANERCHIAD GAN WILLIAM TROUGHTON**
2.00-4.00, dydd Iau, 15 Ionawr
Cyfarfod misol nesaf Prifysgol y Drydedd Oes.

CYFARFOD PACT (PARTNERIAID A CHYMUNEDAU YN CYDWEITHIO)
7.00, nos Iau, 15 Ionawr:
Gwahoddiad gan y Tîm Plismona Bro i aelodau'r gymuned leol ddod i drafod eu syniadau ar gyfer eu cymuned.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Mawrth, 20 Ionawr
Yn dilyn cyfnod treialu yn eu swyddfa yn Llambed y llynedd mae CAVO wedi penderfynu datblygu'r sesiynau hyn mewn llefydd eraill. Sesiynau ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli fydd y rhain (10.00 i 12.30 – apwyntiadau yn unig; 1.00-4.00 – sesiynau galw i mewn) a byddant yn cael eu cynnal yma dwywaith y mis tan yr haf.

TRAFODAETHAU HINSAWDD Y CENHEDLOEDD UNEDIG 2008
4.00, dydd Sul, 25 Ionawr
Fe'ch gwahoddir i anerchiad am Drafodaethau Hinsawdd y CU 2008 o safbwynt Isabel Bottoms, cynrychiolydd ieuenctid y DU, sy'n awyddus i rannu ei phrofiad unigryw gyda chi. Cewch grynodeb wleidyddol fras o'r pythefnos a beth mae hyn yn ei olygu i'r DU a'r flwyddyn sy'n dod, a chewch weld ffilmiau byr, lluniau lliwgar a phobl i'ch ysbrydoli.

DIWRNOD COFIO'R HOLOCOST 2009
12.00-2.00, dydd Mawrth, 27 Ionawr
Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost (sydd â'r thema Sefwch yn erbyn Casineb), darperir cyfle i chi ymdawelu yng ngolau cannwyll ac ystyried neges y diwrnod. Galwch mewn am ychydig funudau yn ystod eich amser cinio i gynnau cannwyll a myfyrio ar y pethau hyn a chofio'r dioddefaint yn y Dwyrain Canol a llefydd eraill. Croeso i bawb.

HAND IN HAND
7.00, nos Wener, 20 Chwefror
Cynhyrchiad Theatr Powys o *Hand in Hand*. Penllanw trioleg Chris Cooper yw *Hand in Hand* yn dilyn ôl troed *Morgiana's Dance* ac *Angel*. Stori sydd ar unwaith yn ddoniol, yn ddwys ac eto ychydig bach yn od – yn union fel y plentyn oddi mewn i ni sydd angen gofal tyner. Mae *Hand in Hand* yn addas ar gyfer pawb dros 6 oed – pawb sy'n gwybod bod yn rhaid i ni ddod yn ffrindiau. Tocynnau: £6 (gostyngol: £4) ac ar gael o flaen llaw o'r Morlan.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr